


Canllaw ar gyfer ...

Creu Dogfennau PDF



Creu PDF

Nid yw creu PDF o destun neu ddelwedd yn broses cymhleth ac nid oes angen i chi gael fersiwn llawn o Adobe Acrobat neu feddalwedd Adobe arall i greu dogfen PDF.

Mae'r ddogfen wedi'i dylunio i roi gorolwg byr i chi o'r atebion amrywiol sydd ar gael a fydd yn eich caniatáu i drawsnewid eich dogfennau presennol yn rhai PDF ac yn eich cyfeirio at y cynnyrch mwyaf poblogaidd sydd ar gael AM DDIM ac yn Fasnachol.

Y Dewisiadau AM DDIM ...

Os ydych am greu dogfen PDF o ddogfen sy'n bodoli eisoes megis dogfen word neu publisher, gallwch drawsnewid y ffeil yn hawdd trwy lawrlwytho a gosod un o'r pecynnau sy'n creu dogfennau PDF **AM DDIM** trwy ddewis "Print to PDF" yn yr un ffordd ag y basech yn dewis i argraffu'r ddogfen trwy eich argraffydd arferol.

Gallwch argraffu delweddau a dogfennau graffigol eraill yn yr un modd, er gan eich bod yn "argraffu'r" ddogfen bydd rhaid i chi ddeall efallai y bydd rhai cyfyngiadau. Os gallwch ymdopi gyda'r cyfyngiadau, neu os ydych yn barod i roi tro ar osodiadau amrywiol i weld beth y gallwch ei wneud a'r hyn na allwch ei wneud, yna dylech fod yn gallu trawsnewid dogfennau i PDF **AM DDIM!**

Y ddwy raglen PDF **AM DDIM** mwyaf poblogaidd yw:


- Primo PDF – <http://www.primopdf.com>
- Cute PDF – <http://www.cutepdf.com>

Y Dewisiadau sy'n rhaid TALU AMDANYNT ...

Os ydych am ychydig mwy o hyblygrwydd wrth greu PDF yna mae rhai dewisiadau eraill yn lle Adobe Acrobat. Nitro PDF yw un o'r dewisiadau mwyaf cyffredin ac mae'n rhoi'r gallu i greu PDFs o wahanol ddiwygiadau am lawer llai na chost y Meddalwedd Adobe llawn.

Y ddwy raglen PDF mwyaf poblogaidd sy'n rhaid talu amdanynt:

- Adobe Acrobat - <http://www.adobe.com/products/acrobat.html>
- Nitro PDF – <http://www.nitropdf.com>



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan arts-engine.org.uk er defnydd aelodau arts-engine.org.uk. Gellir rhannu'r ddogfen yn rhydd, fodd bynnag bydd yr hawlfraint a'r holl hawliau sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon yn parhau i fod yn eiddo i arts-engine.org.uk a Chyngor Sir Powys.

Mae unrhyw feddalwedd y gellir ei ddynodi o fewn y ddogfen hon yn amodol ar drwydded unigol y darparwr meddalwedd ac mae wedi'i rhoi'n ddiwyll. Mae unrhyw feddalwedd sy'n cael ei lawrlwytho yn cael ei wneud ar risg yr unigolyn sy'n lawrlwytho ac os bydd unrhyw broblemau'n codi yn sgil hyn ni all yr unigolyn sy'n lawrlwytho rhoi bai ar arts-engine.org.uk neu ei berchnogion, felly ni chynigir na awgrymir unrhyw warant.

Os ydych mewn unrhyw amheuaeth am unrhyw feddalwedd sydd wedi'i nodi yn y ddogfen hon, ein hawgrym yw i chi beidio â lawrlwytho'r meddalwedd dan sylw.

© arts-engine.org.uk 2011, pob hawl wedi'i gadw.

